

Rhif: WG33701



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Dehongli deddfwriaeth Cymru

Ystyried Deddf ddehongli i Gymru

Rhagfyr 2017

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a dderbyniodd Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad *Dehongli deddfwriaeth Cymru – ystyried Deddf ddehongli i Gymru*.

Cynulleidfa

Deddfwyr, gweithwyr proffesiynol cyfreithiol, y farnwriaeth, cyrff cynrychioliadol, cyrff y sector cyhoeddus, grwpiau â buddiant, y sector gwirfoddol, ac unigolion sydd â buddiant yn hygyrchedd a dehongliad statudol cyfraith Cymru.

Camau i'w cymryd

Er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth

Dylid anfon ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon i:

Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: LegislativeCounsel@gov.wales

Rhif ffôn: 0300 025 0375

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn:

<https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/dehongli-cyfreithiau-cymru-deddf-dehongli-i-gymru>

Cynnwys

Pennod 1 – Cyflwyniad.....	5
Cynigion.....	5
Ymatebion i'r ymgynghoriad.....	5
Pennod 2 – Crynodeb o'r themâu allweddol.....	7
Cydnabyddiaeth o'r mater "dwy Ddeddf" a'r angen i leihau ar y cymhlethdod a achosir gan hyn.....	7
Gwybod pa Ddeddf ddehongli sy'n gymwys.....	7
Perygl o wro'n rhy bell oddi wrth Ddeddf 1978.....	7
Tueddiad at ddatrys y mater ar lefel y DU neu Gymru a Lloegr.....	7
Mynd i'r afael â'r diffyg diffiniadau o eiriau ac ymadroddion yn y Gymraeg yn Neddf 1978.....	8
Safoni termau Cymraeg.....	8
Y Gymraeg a rhywedd.....	8
Cyfathrebu electronig.....	8
Pennod 3 – Crynodeb o'r ymatebion yn ôl cwestiwn.....	9
Cynigion ar gyfer diwygio.....	9
Y mater 'dwy Ddeddf'.....	11
Newidiadau i'r 'rheolau craidd'.....	13
Materion eraill y gellid mynd i'r afael â hwy mewn Deddf ddehongli newydd i Gymru.....	16
Effaith ar y Gymraeg.....	17
Materion eraill a godwyd gan ymatebwyr.....	19
Hygyrchedd Cyfraith Cymru.....	19
Y Gymraeg.....	20
Rhagor o sylwadau.....	20
Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr.....	21

Pennod 1 – Cyflwyniad

1. Defnyddir Deddfau dehongli i fyrhau a symleiddio deddfwriaeth. Maent yn egluro effaith cyfraith statud drwy sefydlu rheolau dehongli, ac yn byrhau cyfreithiau drwy fabwysiadu darpariaethau safonedig (diffiniadau o eiriau a thermau a ddefnyddir yn gyffredin er enghraifft) nad oes angen iddynt gael eu hailadrodd wedyn. Ar hyn o bryd, mae'r holl gyfreithiau sy'n gymwys yng Nghymru yn cael eu dehongli drwy gyfeirio at Ddeddf Senedd y DU, sef Deddf Dehongli 1978 (Deddf 1978).
2. Ar 19 Mehefin 2017 cafodd y ddogfen *Dehongli deddfwriaeth Cymru – ystyried Deddf ddehongli i Gymru*¹ ei chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru i fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad dros gyfnod o 12 wythnos a daeth i ben ar 11 Medi 2017.

Cynigion

3. Ystyriwyd wrth ymgynghori a ddylai Llywodraeth Cymru ddatblygu Deddf ddehongli newydd i Gymru neu ddiwygio Deddf 1978 drwy atgynhyrchu Atodlen 1 y Ddeddf honno yn y Gymraeg. Pe byddai Deddf newydd yn cael ei datblygu, roedd yr ymgynghoriad polisi hefyd yn gofyn beth y dylid ei gynnwys yn y Ddeddf honno.

Ymatebion i'r ymgynghoriad

4. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru a chafodd ei anfon drwy'r e-bost at randdeiliaid ag iddynt fuddiant uniongyrchol yn hygyrchedd a dehongliad statudol y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru. At hynny, anfonwyd negeseuon e-bost rheolaidd at y rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori. Gwelwyd y tudalennau ar wefan Llywodraeth Cymru 1,100 o weithiau, gan gynnwys gweld y fersiwn Gymraeg 106 o weithiau.
5. Derbyniwyd 17 o ymatebion ysgrifenedig oddi wrth randdeiliaid. Cafwyd ymatebion gan unigolion a sefydliadau sy'n cynrychioli gwahanol sectorau ar draws Cymru a'r DU.
6. Gallai'r ymatebwyr gyflwyno eu safbwyntiau a'u sylwadau ar bapur neu ar-lein, yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
7. Rydym yn ddiolchgar i bawb a gyflwynodd ymatebion i'n cynigion ymgynghori. Mae'r ymatebion yn cynnwys cyfoeth o safbwyntiau, gwybodaeth a syniadau a

¹ <https://ymgynghoriadau.llyw.cymru/ymgynghoriadau/dehongli-cyfreithiau-cymru-deddf-dehongli-i-gymru>

fydd yn cael eu defnyddio i lywio'r cynigion deddfwriaethol a'r rhaglen ehangach ar gyfer gwella hygyrchedd cyfraith Cymru.

8. Mae crynodeb o'r ymatebion i bob cwestiwn i'w gweld isod. Amgaeir rhestr o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn Atodiad A. Mae'r ymatebion i'r cwestiynau unigol i'w cael ar wefan Llywodraeth Cymru:
<https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/dehongli-cyfreithiau-cymru-deddf-dehongli-i-gymru>
9. Atebodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr bob cwestiwn. Rhoddodd rhai ohonynt sylwadau eraill hefyd, sydd wedi'u dadansoddi a'u nodi.
10. Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd yn dymuno i'w sylwadau gael eu defnyddio'n ddienw nodi hynny wrth ymateb. Dewisodd un o'r ymatebwyr wneud hynny felly mae ei enw wedi cael ei dynnu o'r wybodaeth yn y ddogfen hon.

Pennod 2 – Crynodeb o'r themâu allweddol

11. Cododd y themâu allweddol a ganlyn yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Cefnogaeth ar gyfer yr egwyddor y dylid mabwysiadu darpariaethau dehongli dwyieithog, wedi'u teilwra'n benodol i Gymru

12. Yn gyffredinol, cefnogai'r ymatebwyr y cynnig yn yr ymgynghoriad i wneud darpariaeth ddwyieithog, wedi'i theilwra'n benodol, ynghylch dehongli deddfwriaeth Cymru.

Cydnabyddiaeth o'r mater "dwy Ddeddf" a'r angen i leihau ar y cymhlethdod a achosir gan hyn

13. Nid yw Deddf newydd sy'n darparu fel bod modd gwneud dehongliad statudol o gyfraith Cymru yn golygu na fyddai Deddf 1978 yn gymwys bellach i ddeddfwriaeth sy'n cael effaith ar Gymru. Mynegodd rhai o'r ymatebwyr bryderon am y dryswch y byddai cael dwy Ddeddf ddehongli yn ei achosi i ddefnyddwyr deddfwriaeth, ac roeddynt o'r farn y dylid lleihau ar unrhyw gymhlethdod.

Gwybod pa Ddeddf ddehongli sy'n gymwys

14. Roedd amrywiaeth barn ynghylch sut y gellid egluro wrth ddarllenwr deddfwriaeth p'un ai Deddf 1978 neu'r Ddeddf newydd fyddai'n gymwys. Nid oedd mwy o gefnogaeth i unrhyw un dull yn benodol, fodd bynnag.

Perygl o wyro'n rhy bell oddi wrth Ddeddf 1978

15. Roedd rhai ymatebwyr yn awyddus i weld y cyfle yn cael ei gymryd i arloesi, a dywedodd y rhan fwyaf ohonynt eu bod o blaid moderneiddio'r rheolau yn Neddf 1978 mewn Deddf newydd i Gymru. Mynegodd ymatebwyr bryderon hefyd, fodd bynnag, ynglŷn â gwyro'n rhy bell o'r trefniadau presennol.

Tueddiad at ddatrys y mater ar lefel y DU neu Gymru a Lloegr

16. Roedd amryw o'r ymatebwyr yn falch iawn bod Llywodraeth Cymru yn ystyried moderneiddio'r rheolau ar ddehongli statudol i Gymru. Er hynny, ystyriai rhai ohonynt mai Llywodraeth y DU ddylai gymryd y cyfle (neu efallai y dylai'r Llywodraethau weithredu ar y cyd) i naill ai moderneiddio Deddf 1978 ar gyfer Cymru a Lloegr, neu foderneiddio pob Deddf ddehongli sydd ar waith yn y DU.

Mynd i'r afael â'r diffyg diffiniadau o eiriau ac ymadroddion yn y Gymraeg yn Neddf 1978

17. Roedd y rhan fwyaf, os nad pob un, o'r ymatebwyr yn cydnabod ei bod hi'n broblem mai yn Saesneg yn unig y mae Atodlen 1 i Ddeddf 1978 (yr Atodlen o ddiffiniadau o eiriau ac ymadroddion), ac roeddynt o blaid mynd i'r afael â hyn.

Safoni termau Cymraeg

18. Galwodd rhai o'r ymatebwyr ar Lywodraeth Cymru i gymryd y cyfrifoldeb am safoni terminoleg Gymraeg.

Y Gymraeg a rhywedd

19. Cydnabu'r ymatebwyr nad yw'r ffaith bod enwau yn cael eu rhannu yn rhai benywaidd a gwrywaidd yn y Gymraeg yn cael ei adlewyrchu yn y rheol bresennol ar rywedd yn Neddf 1978. Dywedodd rhai o'r ymatebwyr hynny y dylid unioni hyn mewn unrhyw ddeddfwriaeth newydd. Roedd rhai o'r ymatebwyr hefyd o'r farn y gellid mynd i'r afael â materion gramadegol eraill (er enghraifft treigladau) mewn Deddf newydd.

Cyfathrebu electronig

20. O blith y rheini a fynegodd farn am sut y dylid mynd i'r afael â'r rheol yn Neddf 1978 ynghylch cyflwyno dogfennau, roedd y rhan fwyaf, os nad pob un ohonynt, yn cefnogi'r syniad o gynnwys dulliau cyfathrebu electronig.

Pennod 3 – Crynodeb o'r ymatebion yn ôl cwestiwn

Cynigion ar gyfer diwygio

21. Edrychodd yr ymgynghoriad ar yr opsiynau ar gyfer diwygio'r gyfraith yn ymwneud â dehongli deddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru. Mae'r rhan hon o'r crynodeb o'r ymgynghoriad yn nodi'r ymatebion i'r cwestiynau ynghylch y ddau opsiwn ar gyfer diwygio:
- diwygio Deddf 1978;
 - creu Deddf ddehongli newydd i Gymru.

Cwestiwn 1: A ddylem fewnosod atgynhyrchiad o Atodlen 1 i Ddeddf Dehongli 1978 yn Gymraeg yn y ddeddf honno neu a ddylem geisio cymhwyso Deddf ddehongli i Gymru i gymaint o ddeddfwriaeth Gymraeg â phosibl?

22. O'r 15 o ymatebion a ddaeth i law i'r cwestiwn hwn, roedd y rhan fwyaf yn dweud y dylai'r Ddeddf sy'n llywodraethu'r modd y dehonglir cyfraith Cymru fod ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Dywedwyd hefyd y dylai'r Ddeddf honno ddarparu fel bod modd dehongli termau Cymraeg mewn statudau.
23. Credai pedwar o'r ymatebwyr y dylid atgynhyrchu Atodlen 1 i Ddeddf 1978 yn Gymraeg a'i mewnosod yn Neddf 1978. Nododd ymatebwyr y byddai gweithredu fel hyn yn codi proffil y Gymraeg drwy ei gosod mewn darn allweddol o ddeddfwriaeth Senedd y DU.
24. Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth barn ynghylch beth y dylid ei gynnwys yn yr Atodlen. Awgrymodd Huw Williams a Clare Hardy (o gwmni cyfreithwyr Geldards) y dylid hepgor termau nad ydynt yn berthnasol yng nghyd-destun Cymru, megis "*London Borough*". Dywedodd rhai ymatebwyr hefyd y gellid mynd gam ymhellach wrth gyfieithu Atodlen 1 i Ddeddf 1978 a chynnwys cyfieithiad o eiriau a diffiniadau ychwanegol. Yn ôl Comisiynydd y Gymraeg, fodd bynnag, dylid cynnwys pob term (hyd yn oed y rheini yr ymddengys y gellid eu hepgor yng nghyd-destun Cymru) yn yr Atodlen i helpu siaradwyr Cymraeg sy'n dymuno cyfeirio at gyfraith Lloegr.
25. Roedd pedwar ymatebydd yn ffafrio cael Deddf newydd i Gymru. Ym marn Cymdeithas Ddysgedig Cymru, gan mai diben Deddf ddehongli yw bod yn gymorth ar gyfer dehongli statudol, a helpu'r darllenydd, felly, i ddeall bwriad y ddeddfwrfa, "*it would be incongruous to insert into [the 1978 Act, an Act of the UK Parliament] a schedule concerning the intentions of a different legislature*".

26. Yn ôl Dr Catrin Fflur Huws, fodd bynnag, dylid dechrau drwy ddiwygio Deddf 1978 ar lefel y DU. Drwy wneud hynny, byddai'r Ddeddf yn darparu fel bod modd gwneud dehongliad statudol mewn perthynas â phob darn o ddeddfwriaeth y DU ond byddai iddi benodau ar wahân i Gymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban.
27. Fel ymateb i gwestiwn 1, cododd amryw o ymatebwyr bryderon y gallai'r ddwy Ddeddf ddehongli sy'n gymwys i gyfraith Cymru beri dryswch o bosibl ac arwain at fwy o gymhlethdod – eir i'r afael â hyn mewn perthynas â chwestiynau 3 a 4 isod.

Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno â manteision posibl Deddf ddehongli i Gymru a nodir yn y papur ymgynghori hwn?

28. O'r 12 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd pob un yn gytûn bod yna rai manteision ynghlwm wrth gael Deddf newydd benodol i Gymru. Atebodd tri ymatebydd "ydw" neu "ydyn" yn syml i'r cwestiwn hwn heb roi unrhyw sylwadau pellach.
29. Roedd y rheini a ddarparodd sylwadau o sylwedd wedi nodi'r manteision allweddol a ganlyn o gael Deddf i Gymru ar wahân:
- byddai ar gael yn Gymraeg a byddai hynny'n helpu i sicrhau hygyrchedd y gyfraith drwy gyfrwng y Gymraeg;
 - byddai'n gydnaws â'r dull a ffeirir gan Lywodraeth Cymru o osgoi rhoi darpariaeth ddeddfwriaethol y Cynulliad mewn Deddfau Senedd y DU sy'n bodoli eisoes (lle byddai'r ddarpariaeth yn ymddangos yn y Saesneg yn unig);
 - byddai'n sicrhau statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg yn unol â gofynion adran 156(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (lle, ar y llaw arall, gallai mewnosod fersiwn Gymraeg o Atodlen 1 yn Neddf 1978, a ddeddfwyd yn y Saesneg yn wreiddiol, wanhau statws y testun Cymraeg);
 - byddai'n gwella hygyrchedd, er enghraifft drwy leihau hyd y ddeddfwriaeth a lywodraethir ganddi, ac yn sicrhau bod dull haws ei ddefnyddio ar gyfer cefnogi'r egwyddor o Gymraeg Clir/Plain English (roedd gwella hygyrchedd yn cael ei hystyried fel agwedd bwysig yn arbennig ar adeg pan fo cymorth cyfreithiol wedi cael ei leihau);

- e. byddai'n cynnig cyfle i arloesi a chreu Deddf hygrych a modern a fyddai'n mynd ymhellach na Deddf 1978 i wasanaethu anghenion Cymru a'r Gymraeg yn well.
30. Nododd ymatebwyr y pryderon a ganlyn ynglŷn â chael Deddf ar wahân i Gymru a fyddai'n cynnwys darpariaeth mewn perthynas â dehongli statudol:
- a. roedd un ymatebydd yn pryderu am y cymhlethdod posibl a allai godi pe byddai angen defnyddio dwy Ddeddf ar wahân, ac roedd Cymdeithas Barnwyr Rhanbarth EM o'r farn y byddai'n hanfodol cael eglurder ynghylch pa Ddeddf sy'n gymwys i ddarn o ddeddfwriaeth;
 - b. roedd Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol, gan dderbyn y manteision a nodir yn y papur ymgynghori, o'r farn y dylid cymryd gofal i sicrhau na fydd y Ddeddf newydd yn achosi gwrthdaro anfwriadol â Deddf 1978, neu'n newid ei hystyr mewn unrhyw ffordd;
 - c. roedd Barnwyr Cyswllt yr Iaith Gymraeg yn poeni am effaith y newidiadau i Ddeddf 1978 ar fynediad at gyfiawnder;
 - d. roedd Eglwys Bresbyteraidd Cymru o'r farn nad oedd angen i Ddeddf i Gymru fynd y tu hwnt i ddarpariaethau safonol Deddf 1978.

Y mater 'dwy Ddeddf'

31. Cynigiodd yr ymgynghoriad y byddai Deddf newydd i Gymru yn gymwys i Ddeddfau'r Cynulliad Cenedlaethol ac is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Deddfau hynny, ac o bosibl i is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddfau Senedd y DU. Byddai Deddf 1978 yn parhau'n gymwys, fodd bynnag, i bob Deddf Senedd y DU, gan gynnwys y rheini sy'n gymwys yng Nghymru. Felly, byddai dwy Ddeddf yn gweithredu mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru.
32. Gofynnodd yr ymgynghoriad am farn am y materion ymarferol sy'n deillio o hyn ac atebion posibl i'r effeithiau.

Cwestiwn 3: Pa un o'r atebion posibl i'r mater dwy Ddeddf fyddai fwyaf defnyddiol yn eich barn chi i ddefnyddwyr y ddeddfwriaeth?

Cwestiwn 4: A ydych yn credu bod unrhyw faterion ymarferol yn deillio o unrhyw rai o'r atebion posibl i'r mater dwy Ddeddf?

33. O'r rheini a anfonodd ymateb i'r cwestiynau hyn, ystyriai'r rhan fwyaf y byddai risg yn gysylltiedig â chael dwy Ddeddf ddehongli sy'n gymwys i ddeddfwriaeth yng Nghymru.
34. Dywedodd rhai o'r ymatebwyr, gan nad yw ymarferwyr yn cyfeirio'n aml iawn at Ddeddfau dehongli, neu eisoes yn cymhwyso'r gyfraith yn anghywir, y gallai dwy Ddeddf arwain at fwy o gymhlethdod ac achosi mwy o faterion. Yn ymateb Barnwyr Cyswllt yr Iaith Gymraeg nodwyd y gallai hyn fod yn rhwystr i'r amcan cyffredinol o sicrhau bod cyfraith Cymru yn fwy hygyrch.
35. Roedd Cyfreithwyr yr Iaith Gymraeg mewn Llywodraeth Leol o'r farn y byddai'r atebion a gynigiwyd i ddelio â'r materion yn deillio o gael dwy Ddeddf yn arwain at anawsterau ymarferol a risgiau cynhenid wrth ddehongli deddfwriaeth. Yn eu barn hwy, roedd hyn yn arbennig o wir yn achos deddfwriaeth Senedd y DU ddiwygiedig ac is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru o dan ddeddfwriaeth sylfaenol Senedd y DU. Cytunodd ymatebydd arall fod materion ymarferol yn deillio o'r atebion a awgrymwyd yn yr ymgynghoriad, a dywedodd ei bod yn ofynnol cael corff cynhwysfawr o gyfraith Cymru wedi'i chodeiddio.
36. Ymhlith pryderon eraill, mynegwyd y gallai fod perygl, yn enwedig y tu allan i Gymru, y byddai rhai'n rhagdybio bod y ddwy Ddeddf ddehongli yn union yr un fath. O ganlyniad, gallai'r Ddeddf newydd gael ei diystyru ac, yn wir, byddai hynny yn debygol o ddigwydd.
37. Mynegwyd barn hefyd, fodd bynnag, fod gan y Llywodraeth *“an opportunity to try something bold, and should not shy away from it.”* (Matthew Waddington)
38. Roedd amrywiaeth barn ynglŷn â'r problemau posibl yn deillio o'r mater dwy Ddeddf:
 - a. dywedodd rhai ymatebwyr fod angen eglurder ynghylch pa Ddeddf ddehongli sy'n gymwys ac y gellid sicrhau hyn drwy gynnwys darpariaeth ym mhob darn o ddeddfwriaeth yn nodi pa Ddeddf ddehongli sy'n gymwys. Barn Cymdeithas Ddysgedig Cymru oedd na fyddai unrhyw anawsterau ymarferol yn codi yn sgil mynd yn groes i'r dull arferol o gymhwyso Ddeddf ddehongli (hy cymhwyso'r Ddeddf yn uniongyrchol ym mhob darn dilynol o

ddeddfwriaeth). Fodd bynnag, roedd gan rai ymatebwyr bryderon am gynnwys darpariaethau sy'n nodi pa Ddeddf ddehongli sy'n gymwys oherwydd gallai darpariaethau o'r fath fod yn gymhleth a pheri dryswch i'r defnyddwyr;

- b. rhoddodd amryw o ymatebwyr sylwadau ar ddefnyddioldeb deunydd anneddfwriaethol i ddatrys y mater "dwY Ddeddf". Credai'r ymatebwyr ar ran Eglwys Bresbyteraidd Cymru y gellid defnyddio gwefan Cyfraith Cymru/Law Wales yn hytrach na Nodiadau Esboniadol. Dywedodd Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol y byddai defnyddio gwefan Cyfraith Cymru/Law Wales yn ffordd o ategu nodiadau esboniadol a chyfeirio'r darlennydd at ddarpariaethau, ond na ellid dibynnu ar wneud hynny yn unig. Ar y llaw arall, credai rhai o'r ymatebwyr nad oedd hi'n dderbyniol gofyn i'r darlennydd edrych ar ddeunyddiau eraill y tu hwnt i'r ddeddfwriaeth i egluro pa Ddeddf oedd yn gymwys (er enghraifft, y Memorandwm Esboniadol neu'r Nodiadau Esboniadol i Ddeddf, neu wefan Cyfraith Cymru/Law Wales).

Newidiadau i'r 'rheolau craidd'

39. Amlinellwyd yn y papur ymgynghori rai o'r newidiadau y gellid eu gwneud i 'reolau craidd' Deddf 1978 pe byddent yn cael eu hatgynhyrchu mewn Deddf newydd i Gymru.

<p><i>Cwestiwn 5: Beth yw'ch safbwyntiau am y newidiadau posibl i'r 'rheolau craidd', a nodir ym Mhennod 7?</i></p>
--

40. Derbyniwyd 12 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, ac roedd llawer ohonynt yn cefnogi'r newidiadau a gynigiwyd.
41. Cyflwynodd nifer sylweddol o ymatebwyr safbwyntiau ar reol ynglŷn â chyfeirio at rywedd. Credai rhai o'r ymatebwyr y dylid cadw'r rheol ynglŷn â rhywedd i sicrhau bod yr arfer o ddrafftio mewn ffordd niwtral o ran rhywedd yn parhau. Ystyriai ymatebwyr eraill y gallai fod yn rheol ddefnyddiol gan ei bod hi'n fwy anodd cyfleu rhwymedigaethau mewn ffordd niwtral o ran rhywedd yn y Gymraeg nag ydyw yn y Saesneg. Dywedodd ymatebwyr hefyd y byddai rhaid i'r rheol gadw mewn cof yr ystyriaethau gramadegol perthnasol o ran rhywedd yn Gymraeg. At hynny hefyd, nododd ymatebwyr y dylid ystyried nodweddion gramadegol a chystrawennol eraill y Gymraeg, nid rhywedd yn unig.
42. Ymhlith y safbwyntiau eraill a fynegwyd am y newidiadau posibl i'r rheolau craidd, roedd:

- a. cefnogaeth ar gyfer gochel rhag ailadrodd rheolau sy'n amherthnasol i gyfraith Cymru neu sy'n anachronistig;
 - b. cefnogaeth ar gyfer cadw a diweddarau'r rheol ynghylch cyflwyno dogfennau, yn arbennig ei diweddarau i gynnwys cyfathrebu electronig ac o bosibl i fynd i'r afael ag adegau pan fo gwasanaeth yn cael ei effeithio;
 - c. roedd yr Eglwys Bresbyteraidd eisiau gweld y rheol ynghylch mesur pellter yn cael ei chadw, ac roedd ymateb yr Eglwys hefyd yn dweud bod adran 13 o Ddeddf 1978 (sy'n ymrafael â rhagddisgwyl arfer pwerau) yn aneglur;
43. Dymunai llond llaw o'r rheini a gyflwynodd ymateb i'r cwestiwn hwn weld rheolau craidd Deddf 1978 ei hun yn cael eu moderneiddio a'u diweddarau.

Darpariaethau newydd posibl

44. Cynigiodd y papur ymgynghori ddarpariaethau newydd posibl y gellid eu cynnwys mewn Deddf newydd ar gyfer llywodraethu dehongliad statudol cyfraith Cymru. Gofynnwyd i ymatebwyr roi eu barn am y rhain ac i grybwyll hefyd unrhyw ddarpariaethau ychwanegol y gellid eu cynnwys yn y Ddeddf newydd.

Cwestiwn 6: Beth yw eich barn am y darpariaethau newydd posibl y gellid eu cynnwys mewn Deddf ddehongli i Gymru, a nodir ym Mhennod 8?

Cwestiwn 7: A oes unrhyw ddarpariaethau newydd ychwanegol at y rhai a nodir ym Mhennod 8, yr hoffech eu cynnwys mewn Deddf ddehongli i Gymru?

45. Derbyniwyd 11 o ymatebion i'r cwestiynau hyn. Yn hytrach na manylu ar bob un o'r cynigion yn unigol, rhoddodd yr ymatebwyr sylwadau a oedd yn gyffredinol eu natur.
46. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion. Cytunai'r ymatebwyr fod angen diweddarau'r rheolau dehongli yn Neddf 1978 yn gyffredinol, yn ogystal â'u teilwra i ddatrys materion mewn perthynas â dehongli cyfraith Cymru. Yn ôl un ymatebydd, er bod y darpariaethau yn "*genuine attempt at resolving the issues around the interpretation of Welsh legislation*", gallent fynd ymhellach eto.
47. Nododd rhai ymatebwyr, er eu bod yn cytuno'n gyffredinol â'r cynigion, fod rhaid darllen y ddeddfwriaeth ddrafft yn fanwl cyn y gellid deall y cynigion yn llawn.
48. Roedd barn y rheini a gyflwynodd sylwadau am gynigion penodol yn amrywio:

- a. *caniateir cyfuno pwerau i wneud deddfwriaeth sy'n destun gwahanol weithdrefnau yn yr un offeryn statudol* – croesawodd rhai o'r ymatebwyr, gan gynnwys Huw Williams a Clare Hardy (Geldards) y cynnig hwn oherwydd byddai'n golygu y gellid cydgrynhoi is-ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, roedd gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru bryderon y gallai'r cynnig arwain at lai o eglurder i'r ddeddfwrfa ac achosi penbleth i ddefnyddiwr a allai ddymuno herio offeryn;
- b. *y pŵer i gywiro gwallau amlwg mewn deddfwriaeth* – roedd y farn yn amrywio am y cynnig hwn. Credai rhai ymatebwyr nad oedd hwn yn gynnig priodol ar gyfer Deddf ddehongli oherwydd ei fod yn rhoi pŵer i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol. Dywedodd ymatebydd arall nad mewn Deddf ddehongli y dylid delio â hyn ond ar wahân, fel rhan o'r amcan ehangach i wella hygyrchedd. Fodd bynnag, dywedodd Comisiynydd y Gymraeg fod y pŵer hwn yn arbennig o angenrheidiol mewn cyd-destun dwyieithog er mwyn osgoi anghysondeb rhwng fersiynau Cymraeg a Saesneg y testun. Roedd Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol o'r farn bod angen pwylllo mewn perthynas â'r cynnig hwn, gan ddweud y byddai angen drafftio'r ddarpariaeth yn ofalus iawn;
- c. *pŵer i ddiwygio Deddfau i ddisodli cyfeiriad at ddyddiad pryd y mae digwyddiad yn digwydd â'r dyddiad gwirioneddol y digwyddodd y digwyddiad hwnnw* – nid oedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig hwn. Nodwyd unwaith yn rhagor nad oedd y cynnig hwn yn briodol ar gyfer Deddf ddehongli oherwydd ei fod yn rhoi pŵer i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol;
- d. *cyfathrebu electronig* – cafodd y cynnig hwn ei groesawu gan yr ymatebwyr. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno'n "gryf" â'r cynnig. Dywedodd fod angen i Ddeddf newydd i Gymru "adlewyrchu datblygiadau mewn technoleg a'r modd y mae personau bellach yn gohebu yn ymarferol";
- e. *rheolau ychwanegol y gellid eu cynnwys yn y Ddeddf newydd* – awgrymodd Dr Catrin Fflur Huws y byddai hefyd yn bosibl cynnwys rheolau dehongli ynghylch yr anghysondebau rhwng fersiynau Cymraeg a Saesneg y testunau. Dywedodd ymatebydd arall y gellid cynnwys darpariaeth gyffredinol megis pan fo deddfiad yn rhoi swyddogaeth, fod y swyddogaeth honno yn cynnwys pŵer i wneud unrhyw beth sy'n gymorth neu sy'n ffafriol i gyflawni'r swyddogaeth honno, neu sy'n gysylltiedig â'i chyflawni. Awgrymodd Matthew Waddington y dylid ystyried Deddf Ddehongli Jersey.

Materion eraill y gellid mynd i'r afael â hwy mewn Deddf ddehongli newydd i Gymru

49. Codwyd tri mater arall y gellid mynd i'r afael â hwy mewn Deddf newydd i Gymru:
- a. materion yn gysylltiedig â'r Gymraeg – ystyriodd y papur ymgynghori a fyddai'n fuddiol cynnwys darpariaeth yn y Ddeddf newydd i fynd i'r afael â materion penodol sydd dim ond yn codi mewn perthynas â'r Gymraeg (gwahaniaethau yn y derminoleg o ganlyniad i dreiglo neu rywedd er enghraifft);
 - b. darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a allai gael eu cynnwys mewn Deddf ddehongli ar wahân i Gymru, gydag addasiad neu heb addasiad;
 - c. darpariaeth 'ffurf safonol' – roedd y cynnig hwn yn awgrymu y gellid cynnwys mewn Deddf newydd i Gymru 'setiau' o ddarpariaethau sy'n codi'n gyson ar draws deddfwriaeth, er enghraifft, hysbysiadau cosb benodedig, neu sefydlu corff statudol neu swydd.

<p><i>Cwestiwn 8: Beth yw eich barn am y materion eraill y gellid ymdrin â hwy mewn Deddf ddehongli i Gymru, fel y'u nodir ym Mhennod 9?</i></p>

50. Roedd y gefnogaeth ar gyfer y cynnig hwn yn amrywio ymhlith yr 14 o ymatebion a ddaeth i law.
51. Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg y dylid ystyried y ddarpariaeth mewn perthynas â rheolau gramadeg a nodweddion y Gymraeg. Dywedodd un ymatebydd y byddai darpariaeth ynghylch amrywiadau gramadegol o fudd i'r Gymraeg a'r Saesneg, ill dwy.
52. Credai amryw o'r ymatebwyr mai Llywodraeth Cymru ddylai fod yn gyfrifol am safoni'r derminoleg Gymraeg.
53. Cafwyd sylwadau mwy cyffredinol gan rai ymatebwyr ynghylch y berthynas rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg, a dywedwyd hefyd y dylid ystyried sut i ddatrys unrhyw anghysondeb rhwng y testunau.
54. Awgrymodd Comisiynydd y Gymraeg fod Deddf newydd i Gymru yn cynnig cyfle i ailystyried adran 156(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn ymateb Eglwys Bresbyteraidd Cymru, dywedwyd y dylid diddymu adran 156(2).

55. Ychydig iawn o gefnogaeth a gafwyd ymhlith yr ymatebwyr ar gyfer cynnwys darpariaeth *'ffurf safonol'*. Cwestiynodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys Cymdeithas Ddysgedig Cymru, pa mor briodol ydoedd darpariaeth o'r fath mewn Deddf ddehongli yn hytrach nag mewn Deddf a fyddai'n sefyll yn annibynnol. Roedd gan rai ymatebwyr bryderon hefyd ynghylch y goblygiadau ar gyfer craffu deddfwriaethol priodol a gofynnwyd a oedd y cynnig yn mynd y tu hwnt i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Awgrymodd un ymatebydd y byddai'n fwy buddiol ac yn fwy eglur i'r darllenydd pe byddai'r darpariaethau perthnasol yn cael eu nodi ym mhob darn o ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, o safbwynt datblygu deddfwriaeth ddwyieithog, credai Comisiynydd y Gymraeg y byddai'n fuddiol cael darpariaeth ffurf safonol i ddelio â materion rheolaidd oherwydd byddai hynny'n torri ar gostau cyfieithu a phrawfddarllen.

Effaith ar y Gymraeg

56. Roedd cwestiynau 9 a 10 yn gofyn i'r ymatebwyr am eu barn ynghylch yr effaith y byddai Deddf newydd ar gyfer llywodraethu dehongliad statudol cyfraith Cymru yn ei chael ar y Gymraeg. Yn benodol, roedd y cwestiynau hyn yn gofyn am farn am yr effaith y byddai Deddf newydd yn ei chael o safbwynt helpu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Gofynnwyd hefyd am farn yr ymatebwyr am sut y gellid llunio'r Ddeddf newydd er mwyn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.

Cwestiwn 9: Hoffem wybod eich barn am yr effaith y byddai datblygu Deddf ddehongli i Gymru yn ei chael ar y Gymraeg, yn enwedig mewn perthynas â:

i. helpu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, a

ii. trin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.

Pa effeithiau fyddai yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol a lleddfu effeithiau negyddol?

Cwestiwn 10: Esboniwch hefyd sut y gallai'r Ddeddf ddehongli arfaethedig i Gymru gael ei llunio neu ei newid er mwyn cael:

- i. effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg, a***
- ii. dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.***

57. Yn gyffredinol, teimlai'r ymatebwyr mai effeithiau cwbl gadarnhaol y byddai Deddf ar wahân i Gymru yn eu cael o ran helpu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
58. Nodwyd yr effeithiau cadarnhaol allweddol a ganlyn o gael Deddf i Gymru:
- a. byddai'n mynd i'r afael â'r broblem bod cyfraith ddwyieithog Cymru yn destun Deddf ddehongli Saesneg yn unig (Deddf 1978);
 - b. byddai'n helpu pobl i ddefnyddio testunau Cymraeg cyfraith Cymru gan na fyddai rhaid iddynt groesgyfeirio at y testun Saesneg i allu cymhwyso Deddf 1978;
 - c. byddai'n helpu siaradwyr Cymraeg i fynd ar drywydd rhwymedïau cyfreithiol yn eu dewis iaith ac yn sicrhau nad yw pobl sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg o dan anfantais;
 - d. byddai'n tynnu sylw at statws y Gymraeg fel iaith cyfraith;
 - e. byddai'n ysgogiad i fwrw ati i safoni termau Cymraeg yn y proffesiwn cyfreithiol.
59. Fodd bynnag, mynegwyd y pryderon a ganlyn hefyd gan rai o'r ymatebwyr:
- a. y perygl y gellid camddehongli neu gamddefnyddio termau wrth iddynt gael eu cyfieithu. Dywedodd un ymatebydd hefyd y gallai'r cynigion arwain at gynnydd cyffredinol yn y galw am gyfieithwyr a chyfreithwyr sy'n siarad Cymraeg;
 - b. Nid oedd Cyngor y Trydydd Sector Caerdydd yn meddwl y byddai Deddf newydd i Gymru yn helpu'r cyhoedd yn gyffredinol i ddefnyddio'r Gymraeg, er y byddai'n debygol o gryfhau'r defnydd ohoni ym maes y gyfraith.

60. Rhoddodd rhai ymatebwyr eu barn hefyd am sut i sicrhau bod Deddf ar wahân i Gymru yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg neu i gynyddu'r effaith gadarnhaol honno. Dywedodd un ymatebydd ei bod yn bwysig hyrwyddo bodolaeth Deddf ddehongli benodol i Gymru oherwydd byddai'r Ddeddf newydd yn fwy na dyfais ar gyfer y proffesiwn cyfreithiol yn unig, dylai hefyd fod yn gymorth i ddinasyddion unigol ddeall y gyfraith sy'n llywodraethu eu bywydau.

Materion eraill a godwyd gan ymatebwyr

61. Roedd cwestiwn 11 yn gofyn am sylwadau ychwanegol gan yr ymatebwyr nad oeddynt wedi eu crybwyll yn benodol unrhyw le arall yn eu hatebion ysgrifenedig.

Cwestiwn 11: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw sylwadau ar unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy yn benodol, byddwch cystal â'u nodi yma:

62. Ymatebodd wyth i'r cwestiwn hwn ac roedd eu sylwadau'n amrywio.

Hygyrchedd Cyfraith Cymru

63. Mynegodd amryw o'r ymatebwyr farn am hygyrchedd cyfraith Cymru.
64. Cyfeiriodd Cymdeithas y Cyfreithwyr ac ymatebwyr eraill at yr adroddiad *Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru*, gan Gomisiwn y Gyfraith, a chroesawodd y camau cadarnhaol sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru i osod y fframwaith ar gyfer cyfraith Cymru sy'n hygyrch, wedi'i ddrafftio'n dda ac yn ymarferol yn y Gymraeg a'r Saesneg, ill dwy. Cefnogodd Comisiynydd y Gymraeg raglen hirdymor o gydgrynhoi a chodeiddio'r gyfraith yng Nghymru hefyd.
65. Yn yr un modd, ystyriodd rhai o'r ymatebwyr fod datblygu Deddf ar wahân i Gymru yn rhan annatod o raglen ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella hygyrchedd cyfraith Cymru. Dywedodd Matthew Waddington fod rhaglen a datblygiad Deddf o'r fath yn *"interdependent for their effectiveness"*.
66. Nododd Cymdeithas Ddysgedig Cymru y byddai creu Codau o Gyfraith Cymru yn cynnig cyfle i dreialu ymhellach y cysyniad o ddarpariaethau dehongli i Gymru, gan fod pob Cod yn debygol o gael ei ddarpariaethau dehongli ei hun.
67. Awgrymodd Cymdeithas Ddysgedig Cymru hefyd fod yna gyfle i newid y ffordd y mae deddfwriaeth yn cael ei pharatoi a'i chyhoeddi a gwella hygyrchedd cyfraith Cymru. Roedd ymatebwyr eraill yn rhannu'r farn hon.

Y Gymraeg

68. Manteisiodd rhai ymatebwyr ar y cyfle i godi pryderon yn ymwneud â'r Gymraeg. Dywedodd amryw o'r ymatebwyr fod safoni terminoleg y gyfraith yn y Gymraeg yn rhywbeth i Lywodraeth Cymru ei ystyried, a galwodd rhai ohonynt hefyd ar Lywodraeth Cymru i roi blaenoriaeth i ddiwygio er mwyn sicrhau darpariaeth ar gyfer mynd i'r afael â materion sydd dim ond yn codi mewn perthynas â'r Gymraeg.

Rhagor o sylwadau

69. Ymhlith y sylwadau eraill a gafwyd gan yr ymatebwyr, nodwyd:
- a. *Materion trawsffiniol*: Mynegwyd pryderon gan Gofrestrfa Tir EM ynghylch y risgiau posibl i ddeddfwriaeth bresennol neu'r dyfodol a allai godi yn sgil canlyniadau neu effeithiau anfwriadol, yn arbennig pe byddai darpariaethau newydd yn cael eu cymhwyso'n ôl-weithredol. Yn benodol, dywedwyd yn ymateb Cofrestrfa Tir EM fod angen cydnabod effaith unrhyw Ddeddf ddehongli ar faterion trawsffiniol a thynnwyd sylw hefyd at bwysigrwydd rhoi sicrwydd cyfreithiol, yn arbennig o safbwynt eglurder ac unffurfiaeth darpariaeth sy'n gymwys yng Nghymru ac yn Lloegr;
 - b. *Yr Undeb Ewropeaidd*: Awgrymodd William Robinson y dylai Llywodraeth Cymru ystyried y dull o ddehongli cyfraith yr Undeb Ewropeaidd, gan fod ei sefydliadau'n gweithredu mewn mwy nag un iaith.

Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr

Enw'r ymatebydd	Enw'r sefydliad
Dr Catrin Fflur Huws	Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Aberystwyth
Daniel Greenberg	-
Huw Williams, Partner, Geldards LLP Clare Hardy, Uwch Gydymaith, Geldards LLP	-
-	Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Gareth Owens	Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol – Cangen Cymru
Dienw	-
Matthew Waddington	-
-	Cymdeithas y Cyfreithwyr, Cymru
William Robinson	Institute of Advanced Legal Studies, Llundain
Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg	Comisiynydd y Gymraeg
-	Cymdeithas Ddysgedig Cymru
-	Cofrestrfa Tir EM
Ei Hanrhydedd y Barnwr Mererid Edwards, y Barnwr Rhanbarth Hywel James	Barnwyr Cyswllt yr Iaith Gymraeg
Jeremy Moody, Ysgrifennydd a Chynghorydd	Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol
-	Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Sarah Capstick	Cyngor y Trydydd Sector Caerdydd
Y Barnwr Rhanbarth Hywel James	Cymdeithas Barnwyr Rhanbarth EM